www.furthermaths.org.uk/wales		
Astudiaeth Achos	Ysgol Maesydderwen	
Cyfeiriad	Tudor St, Ystradgynlais, Abertawe SA9 1AP	
Nifer myfyrwyr 16 – 18 oed 2014	65	

Astudiaeth Achos:

Myfyriwr – Anna Clancy

Cwrs Maths Pellach:

Dewisais gymryd Mathemateg Bellach gan fy mod yn gweld mathemateg yn ddiddorol iawn a cefais fy nghynghori ar ddiwrnod agored Prifysgol eich bod angen Mathemateg pellach i gael cynnig o Gaergrawnt. Fe wnes i'r cwrs drwy FMSP oherwydd nad yw Mathemateg Pellach ar gael o gwbl yn fy ysgol, a hwn oedd yr unig ffordd y gallwn i wneud y cwrs.

Mae Mathemateg Bellach wedi gwneud i mi sylweddoli cymaint yr wyf yn mwynhau mathemateg ac yr wyf yn awr yn gwybod mai gwneud gradd mewn mathemateg y flwyddyn nesaf oedd y dewis cywir i wneud. Heb Mathemateg Bellach, mae'n annhebygol iawn y byddwn wedi derbyn cynnig o Brifysgol Caergrawnt.

Roedd y gwersi ar-lein yn ddiddorol iawn ac mae'r ystafell ddosbarth ar-lein yn hawdd i'w defnyddio a chael mynediad iddo. Roedd yn wahanol iawn i fy ngwersi Mathemateg Safon Uwch arferol gan fod yn rhaid i chi wneud llawer o'r gwaith yn annibynnol. Yr wyf yn teimlo bod hyn wedi bod yn baratoad da ar gyfer bywyd yn y Brifysgol.

Manteision Astudio Mathemateg Bellach?

Fe wnes i fwynhau'r cwrs oherwydd bod y pynciau yn fwy heriol a diddorol nag i Fathemateg Safon Uwch arferol. Byddwn yn bendant yn argymell Mathemateg Bellach i unrhyw un sydd â diddordeb mewn mathemateg ac sy'n meddwl am wneud gradd Mathemateg yn unrhyw le.